**EPT-01-02 (min)**

# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 9 Ionawr 2002 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 5:00 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| David Davies | Mynwy |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Sue Essex, Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Denzil Jones (eitem 2) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Kay Powell (eitem 2) | Pennaeth yr Is-adran Gynllunio |
| Gerry Quarrell (eitem 2) | Yr Is-adran Cefn Gwlad |

| | |
|---|---|
| June Milligan (eitem 3) | Pennaeth yr Is-adran Cefn Gwlad (a Chadeirydd Grp Bioamrywiaeth Cymru) |
| Nicola Donlon (eitem 3) | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Lyn Owen (eitem 4) | Yr Is-adran Gynllunio |

***Yn bresennol:***

Yn cynrychioli Grp Bioamrywiaeth Cymru:

| | |
|---|---|
| Nigel Ajax-Lewis | Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru a Chyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru |
| David Keast | Cyngor Sir Powys a CLlLC |
| David Parker | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Tony Prater | RSPB Cymru a Chyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru |

***Ysgrifenyddiaeth:***

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau, swyddogion ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod a dymunodd Flwyddyn Newydd dda i bawb.

0.2 Hysbyswyd y Pwyllgor fod Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio 2001/8 wedi cwrdd yn gynharach yn y diwrnod, a diolchodd y Cadeirydd i Val Lloyd ac Eleanor Burnham am drefnu y byddent ar gael. Atgoffwyd unrhyw Aelodau nad oeddent wedi manteisio ar yr hyfforddiant i wneud hynny cyn gynted â phosibl, fel y gallent eistedd ar Bwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio i'r dyfodol.

0.3 Roedd ymatebion i adroddiad yr Ymchwilydd ar safle claddu sbwriel Nantygwyddon i ddod i law erbyn 10 Ionawr a chaent eu hystyried yn y cyfarfod ar 23 Ionawr. Trefnwyd i'r Pwyllgor ystyried ei gasgliadau a'i argymhellion ar 6 Chwefror, gydag amser wedi'i neilltuo mewn

cyfarfod llawn ym mis Mawrth. Cytunodd y Pwyllgor y dylai Canolfan Adnoddau'r Ymchwiliad ym Mhentre gael ei chadw ar agor drwy gais hyd nes y bydd y Pwyllgor wedi rhoi ei adroddiad i'r cyfarfod llawn.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5. Gwnaed hynny fel a ganlyn:

- Geraint Davies – Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
- Val Lloyd – Aelod o Gyngor Dinas Abertawe.

**Eitem 2: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** – EPT-01-02 (p 1)

2.1 Yn ychwanegol at yr eitemau yn ei hadroddiad ysgrifenedig, cyhoeddodd y Gweinidog fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo cais Cymru am gyllid Ewropeaidd o dan y rhaglen Gweithredu Arloesol, gwerth €4 miliwn, a fyddai'n caniatáu i Gymru fwrw ymlaen â'i hagenda datblygu economaidd. Mae copi o ddatganiad Gweinidog ynghlwm fel atodiad.

2.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Y rhaglen Gweithredu Arloesol – croesawai'r Pwyllgor y cyhoeddiad, gan ategu canmoliaeth y Gweinidog o swyddogion a'r cyrff hynny sy'n cefnogi'r cais. Roedd penderfyniad yn dal i gael ei ddisgwyl ar y cais arall am gyllid i gynorthwyo rhwydweithiau datblygu cynaliadwy. Roedd Cymru yn arwain y ffordd yn Ewrop ar ddatblygu cynaliadwy, a theimlai'r Aelodau ei bod yn holl-bwysig cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r hyn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei gyflawni. Byddai'r Gweinidog a Phrif Weinidog Cymru yn bwrw ymlaen â chyfres o ddigwyddiadau marchnata a hyrwyddo yngln â chynaliadwyedd yng Nghymru;

- Mesur Diogelwch y DU – roedd y cyfarfod llawn wedi cyfeirio'r Mesur at y Pwyllgor i gael ei ystyried ganddo, a disgwylid y byddai drafft yn cael ei gyhoeddi yn sesiwn nesaf Senedd y DU. Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r mesurau arfaethedig ar gyfer y Mesur Diogelwch a nodwyd yn atodiad C at adroddiad y Gweinidog;

- Grant Trafnidiaeth – byddai'r Gweinidog yn cyhoeddi dyraniadau ar 22 Ionawr. Tynnodd yr aelodau sylw at yr angen am gyllid mewn rhai ardaloedd, a gofynnwyd am hyblygrwydd ar draws prosiectau i sicrhau bod y grant yn cael ei wario'n llawn;

- Y Rheilffyrdd – mynegwyd pryder gan yr aelodau y gallai'r anghydfod sy'n bodoli rhwng

y Cwmnïau Trên a'r Undebau Llafur ymestyn i Gymru. Nid oedd y Gweinidog yn disgwyl y byddai'r anghydfod yn effeithio ar wasanaethau yng Nghymru, ond byddai'n codi'r mater gyda'r Cwmnïau Trên;

- Cynllunio ein dyfodol – byddai'r Gweinidog yn cyhoeddi papur ymgynghori ar ddyfodol y gyfundrefn gynllunio yng Nghymru cyn bo hir. Gan fod yna gymaint o ddiddordeb yn y mater, bwriadai ei lansio drwy ddatganiad i gyfarfod llawn. Byddai'r Pwyllgor yn chwarae rhan fyw mewn ystyried y ffordd ymlaen ar ôl ymgynghori, gan roi sylw arbennig i ffyrdd priodol o ddiogelu'r drefn o ymgynghori â'r cyhoedd a sicrhau bod barn gwrthwynebwyr yn cael ei chymryd i ystyriaeth yn llawn;

- Rheoliadau Mapio CROW - cadarnhawyd mai dim ond yn erbyn cynnwys tir, yn hytrach na pheidio â chynnwys tir, y gellid apelio yn ystod ail gam y broses fapio. Fodd bynnag, gallai'r rhai sydd â diddordeb ac eraill gyflwyno achos o blaid cynnwys tir yn ystod cam cyntaf y broses;

- Rheoliad CE ar oergelloedd – byddai'r Gweinidog yn gohebu ag Aelodau yngln â'r pryderon ynghylch llosgi, a pha mor hawdd yw cael gafael ar yr unedau symudol sy'n gallu datgymalu oergelloedd nad oes eu hangen mwyach yn ddiogel.

**Eitem 3: Bioamrywiaeth yng Nghymru** – EPT-01-02 (p 2)

3.1 Eglurodd y Gweinidog mai'r adroddiad fyddai'r sylfaen i bapur ymgynghori ar fioamrywiaeth yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Eglurodd Cadeirydd ac aelodau Grp Bioamrywiaeth Cymru eu rolau nhw ar y Grp gan nodi'r prif sialensiau a'u hwynebai, fel y'u nodwyd yn eu hadroddiad.

3.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor adroddiad Grp Bioamrywiaeth Cymru a'r bwriad i ddatblygu rhaglen neilltuol i Gymru. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Gweithredu lleol – roedd hyn wedi gwella, ond roedd yn parhau'n glytiog. Erbyn hyn roedd gan yr awdurdodau lleol i gyd bartneriaethau bioamrywiaeth ac roedd gan rai swyddogion sy'n delio â materion bioamrywiaeth. Cynhaliwyd arolwg blynyddol gan y Grp Ymgynghorol ar Faterion Lleol (is-grp o'r Grp Bioamrywiaeth) a byddai'r canlyniadau yn cael eu darparu i'r Pwyllgor;

- Ehangu aelodaeth y Grp Bioamrywiaeth – awgrymodd y Pwyllgor y dylai ELWa a Ffederasiwn y Busnesau Bach gael eu tynnu i mewn i waith y Grp i helpu i sefydlu bioamrywiaeth fel ystyriaeth ganolog o fewn addysg a busnes. Tynnodd y Pwyllgor sylw at yr angen i'r cwricwlwm cenedlaethol gynnwys bioamrywiaeth, a'r angen i wneud rhywbeth yngln â'r niferoedd isel sy'n ymgymryd â bioamrywiaeth yn y sector addysg uwch;

- Costau – sylweddolai'r aelodau ei bod yn anodd mesur y gost o roi gwahanol gynlluniau gweithredu bioamrywiaeth ar waith, ond teimlent fod angen gwneud rhagor o waith ar lefel y DU a Chymru i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael;

- Manteision economaidd – roedd cynlluniau wedi eu sefydlu i wireddu manteision economaidd bioamrywiaeth, e.e. drwy gysylltu gwarchodfeydd natur â thwristiaeth;

- Canllawiau cynllunio – roedd *Polisi Cynllunio Cymru* sydd i'w gyhoeddi cyn bo bir yn cynnwys canllawiau cryfach ar warchod a gwella bioamrywiaeth;

- Gwrthdaro rhwng rhywogaethau – cododd yr aelodau yr anhawster o warchod yr amrywiaeth o rywogaethau ysglyfaethus a rhywogaethau sy'n cael eu hela o fewn ardaloedd lleol.

3.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn bwriadu gwneud rhagor o waith ar fioamrywiaeth yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac y byddai'n ceisio ategu gwaith Grp Bioamrywiaeth Cymru.

**Eitem 4: Adolygiad o'r Iaith Gymraeg** – EPT-01-02 (p 3)

4.1 Wrth gyflwyno'r papur fel Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, eglurodd Rhodri Glyn Thomas fod yr adolygiad wedi deillio o ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i Gymru ddwyieithog, a'i fod yn ystyried y ffordd orau o wireddu hynny.

2. Crynhodd y Gweinidog y prif ddatblygiadau ers i'r adolygiad ddechrau, yn fwyaf arbennig fod y canllawiau cynllunio mewn perthynas â'r iaith Gymraeg wedi eu cryfhau drwy Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 20 a'r polisi diwygiedig, *Polisi Cynllunio Cymru,* sydd i'w gyhoeddi cyn bo hir, sy'n pwysleisio cynaliadwyedd cymunedau lleol. Roedd trafodaethau ar y gweill gyda'r awdurdodau cynllunio lleol yngln â rhoi'r canllawiau ar waith drwy eu Cynlluniau Datblygu Unedol. Roedd ymchwil bellach wedi ei chomisiynu hefyd.

4.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Arweinyddiaeth – roedd yr aelodau o'r farn y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol roi arweiniad i lywodraeth leol ac asiantaethau eraill yng nghyswllt yr iaith Gymraeg;

- Cymunedau cynaliadwy – croesawai'r Pwyllgor y ffaith fod y canllawiau cynllunio yn cael eu cryfhau ac roeddent o'r farn, gan fod cynifer o'r ystyriaethau sy'n effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith yn berthnasol i lawer o gymunedau eraill yng Nghymru, y dylai'r ffocws fod ar gynnal cymunedau yn gyffredinol;

- Trafnidiaeth – roedd adroddiad y Pwyllgor ar yr *Adolygiad Polisi ar Drafnidiaeth*

*Gyhoeddus* wedi tynnu sylw at yr angen i ddatblygu system trafnidiaeth gyhoeddus integredig, sydd o fewn cyrraedd i holl bobl Cymru ac y gallant ei fforddio. Roedd trafnidiaeth gyhoeddus yn ffordd allweddol o gynnal cymunedau lleol, drwy ddarparu mynediad at waith, lles a gweithgareddau hamdden a chyfyngu drwy hynny ar yr angen i symud allan o gymunedau;

- Adolygu'r broses gynllunio – byddai'r Pwyllgor yn sicrhau bod materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael sylw yn yr adolygiad sydd i'w gynnal yn fuan;

- Gwybodaeth – croesawai'r aelodau yr ymchwil a oedd wedi ei chomisiynu eisoes gan y Gweinidog ac effaith y canllawiau cryfach yng nghyswllt yr iaith Gymraeg, ond pwysleisiwyd bod angen rhagor o wybodaeth yn gyffredinol, yn enwedig ar lefel leol. Croesawai'r Pwyllgor hefyd addewid y Gweinidog i adolygu'r canllawiau eto, pa bai ymchwil yn awgrymu bod angen gwneud hynny.

4.3 Pwysleisiodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi rhoi sylw dyledus i'r iaith Gymraeg yn ei drafodaethau, ac y byddai'n parhau i wneud hynny ym mhob agwedd o'i waith, lle'r oedd hynny'n berthnasol, yn enwedig wrth adolygu'r gyfundrefn gynllunio. Byddai'n ysgrifennu at Rhodri Glyn Thomas yn nodi ymateb ffurfiol y Pwyllgor i'r adolygiad.

**Eitem 5: Rhaglen Waith Fanwl – Gwanwyn 2002** - EPT-01-02 (p 4)

5.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i gytuno i'r rhaglen waith fanwl a cheisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Busnes i gynnal cyfarfod ychwanegol ddydd Iau 31 Ionawr.

5.2 Roedd yr Aelodau yn pryderu yngln â'r effaith a gâi cyfarfod prynhawn Iau ar deithio i'r etholaethau yn ystod misoedd y gaeaf, yn enwedig i Aelodau Gogledd Cymru. Awgrymwyd y dylai'r holl eitemau gwreiddiol ar gyfer 31 Ionawr gael eu hystyried ar 27 Chwefror, ar wahân i'r rhaglen waith strategol ddrafft. Awgrymodd yr aelodau hefyd y dylid gwahodd cwmnïau trên Cymru i gyfarfod ryw dro yn ystod y tymor.

5.3 Cytunodd y Pwyllgor i'r rhaglen waith, yn amodol ar y newidiadau uchod, a byddid yn gofyn i'r Pwyllgor Busnes gytuno bod cyfarfod byr i'w gynnal ar 31 Ionawr.

**Eitem 6: Cofnodion cyfarfod 28 Tachwedd** - EPT-17-01 (min)

6.1 Mabwysiadodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

7.1 Byddai cyfarfod nesaf y pwyllgor am 2.00 pm ddydd Mercher 23 Ionawr 2002 yn Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Ionawr 2002**

**ATODIAD**

**Cymru'n sicrhau €4 miliwn ar gyfer datblygu cynaliadwy**

Yn sgîl cymeradwyo cais Cymru am gyllid Ewropeaidd o dan y rhaglen Gweithredu Arloesol, bydd Cymru yn gallu bwrw ymlaen â'i hagenda datblygu cynaliadwy, cyhoeddodd y **Gweinidog dros yr Amgylchedd, Sue Essex**, heddiw (**dydd Mercher 9 Ionawr**).

Gwahoddodd cynllun Gweithredu Arloesol y Comisiwn Ewropeaidd geisiadau am brosiectau arbrofol a oedd yn ymgorffori nifer o themâu, gan gynnwys hyrwyddo hunaniaeth ranbarthol a datblygu cynaliadwy, yn enwedig ym meysydd arloesi a thechnoleg.

Ar ôl ymgynghori'n helaeth, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol gynlluniau am raglen €4 miliwn, dros ddwy-flynedd, i greu labordy rhanbarthol a fydd yn gallu profi a dangos y ffordd tuag at economi cynaliadwy, seiliedig ar wybodaeth, yng Nghymru.

Wrth groesawu'r newyddion am y cais llwyddiannus, dywedodd Ms Essex: "Mae cymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd i'r rhaglen hon yn dangos bod Cymru yn arwain y ffordd ymysg y rhanbarthau ac mai hi mewn gwirionedd sy'n gyrru'r agenda datblygu cynaliadwy yn ei blaen.

"Gallwn fwrw ymlaen yn awr â phedwar prosiect a fydd yn annog datblygu economaidd sydd wedi'i seilio ar wybodaeth ac arloesi, yn manteisio ar y gymdeithas gwybodaeth i wasanaethu datblygu rhanbarthol, ac yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy a hunaniaeth ranbarthol.

"Mae'r prosiectau'n datblygu'n helaeth ar brofiad a phartneriaethau sydd eisoes wedi'u sefydlu yng Nghymru o dan Gynllun Technoleg Rhanbarthol Cymru a rhaglenni'r Gymdeithas Gwybodaeth, a system gwybodaeth ddaearyddol Cyngor Cefn Gwlad Cymru, *LANDMAP*, sydd wedi ennill gwobrau.

"Bydd y camau gweithredu arloesol hyn yn help i wireddu'r weledigaeth o Gymru gynaliadwy a ddisgrifiwyd yn ein strategaeth datblygu cynaliadwy ac yn y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol *Cymru ar ei Hennill*."

Bydd manylion pellach am y prosiectau sy'n cael eu cyllido o dan y rhaglen Gweithredu Arloesol ar gael yn y lansiad ffurfiol yn ddiweddarach y mis hwn.

**Nodiadau:**

- **Gwnaed y penderfyniad i gyflwyno cais am gyllid o dan Raglen Gweithredu Arloesol Ranbarthol y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd yn y cyfarfod llawn ar 16 Tachwedd 2000**
- **Dylid cyfeirio ymholiadau ar wahân i ymholiadau'r wasg at Reolwr y Rhaglen, Steve Davies, ar rif ffôn (029) 2082 5031, neu dros yr e-bost at** steve.davies@wales.gsi.gov.uk

**(9 Ionawr, 2002)**